


Adnodd yn seiliedig ar destun Bioamrywiaeth Coed Campus



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndir

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth anhygoel o fywyd ar ein planed, y ddaear. O blancion i fabwngs, o goed deri i ffwng, o facteria i bobl – mae'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear yn anghredadwy! Mae hefyd yn berthnasol i gynefinoedd neu ecosystemau – cefnforoedd, coetir, capiau rhew a hyd yn oed dinasoedd. Rydym i gyd yn dibynnu ar fioamrywiaeth i oroesi. Mae pob rhywogaeth yn rhyng-gysylltiedig mewn gwe fawr fel system ocsigen yn darparu aer glân, ocsigen, dŵr, bwyd a lloches. Mae byd naturiol yn llawn bioamrywiaeth yn hanfodol.

Rydym yn aml yn sôn am gyfoeth rhywogaethau fel mesur o fioamrywiaeth. Mae ecosystem iach yn un sydd yn llawn bioamrywiaeth. Mae coedwig law yr Amazon yn gyfoeth o rywogaethau! Mae bodau dynol yn rhoi pwysau ar yr Amazon a'r blaned yn gyffredinol yn fwy nag erioed o'r blaen, gan ddefnyddio a bwyta mwy a mwy o adnoddau. Mae 'Living Planet, adroddiad WWF yn 2018, wedi canfod gostyngiad o 60% ar gyfartaledd ym mhoblogaethau byd-eang mamaliaid, pysgod, ymlusgiaid, amffibiaid ac adar ers 1970.

Ond beth am gyd-destun Cymru? Cynhyrchodd gadwriaethwyr ac ymchwilyr o 70 o sefydliadau Adroddiad Cyflwr Natur 2019 ac er bod straeon newyddion gwych fel y canlynol



Mae gorchudd coetir wedi cynyddu 4 plyg ers dechrau'r 1990au



Mae'r amser sydd yn cael ei neilltuo gan wirfoddolwyr i gadwraeth natur wedi cynyddu 46% ers 2000



Mae'r Barcud Coch wedi dychwelyd ar ôl bron diflannu'n gyfan gwbl

y broblem sylfaenol yw bod bywyd gwylt yng Nghymru yn dal i ddirywio ac mae 17% o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu. I amlygu un, mae niferoedd y pili palod wedi gostwng o dros hanner ers 1976!

Safbwynt hinsawdd

Mae newid hinsawdd yn achosi newid ym mhatrymau'r hinsawdd. Mae tywydd eithafol a llifogydd yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth felly mae gwarchod bioamrywiaeth y Ddaear yn hanfodol.

Gall archwilio rhywogaethau sydd mewn perygl neu greu cynefinoedd, waeth pa mor fach ar dir

yr ysgol, gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth lleol. Bydd creu dŵl, pwll, plannu coed a gadael i ardaloedd o lystyfiant dyfu'n hir yn annog bywyd gwylt Cymru sydd mewn perygl.

Felly, dewch i ni fynd ati!

- Nid oes unrhyw un yn gwybod yn iawn pa fuddion eraill all gael eu colli pan fydd rhywogaethau'n diflannu neu pa effaith y bydd hyn yn ei gael ar rywogaethau eraill neu gynefinoedd.
- Mae ecosystemau naturiol, iach yn helpu i reoli llifogydd, sychder ac erydiad pridd.
- Mae ansawdd ein bywydau yn cael ei gyfoethogi'n fawr gan yr amgylchedd naturiol.
- Mae gan bob rhywogaeth gymaint o hawl moesol i fodoli â bod dyno

Gweithgaredd Bioamrywiaeth

Gwybodaeth Gefndir

Mae coed yn hanfodol i'n bodolaeth. Trwy ffotosynthesis maent yn darparu ocsigen i ni ei anadlu ac yn tynnu CO₂ o'r aer, a'i storio fel carbon, elfen hanfodol o fywyd. Mae'r sesiwn yn canolbwyntio ar rai o'r prosiectau sydd yn digwydd i ailgoedwigo ein planed mewn ymdrech i gynyddu faint o CO₂ y gall coed ei gymryd o'r atmosffer.

Mae damcaniaeth pe byddem yn plannu 1.2 triliwn o goed yn fyd-eang y byddai'n gwrthweithio'r 10 mlynedd diwethaf o allyriadau CO₂. Ond byddai hynny'n gweithio allan fel dros 150 o goed fesul pob person ar y blaned! Mae hefyd yn bwysig nodi bod bwlch amser gan fod coed aeddfed yn amsugno llawer mwy na choed ifanc.





Allwedd Wedi ei anelu at CA2

Nodau Byd-eang:

- 13 – Newid yn yr Hinsawdd
- 15 – Bywyd ar y Tir

Nodau:

- Creu rhywbeth fydd yn annog pobl eraill i blannu coed, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Amcanion:

- Deall gwerth coed i'n hinsawdd a'n hamgylchedd
- Cael dealltwriaeth sylfaenol o ffotosynthesis
- Dysgu am rai o'r prosiectau cadarnhaol sydd yn digwydd ar draws y Byd

Adnoddau:

- Mynediad at liniaduron /chromebook/cyfrifiadur
- Papur a phennau

100 Miliwn o Goed!



Gweithgaredd

- Ar gyfartaledd, mae pob coeden yn darparu digon o ocsigen i 3 pherson anadlu. Faint o goed sydd eu hangen arnom i'r bobl yn y dosbarth hwn anadlu?
- Yn hanfodol, mae coed hefyd yn tynnu carbon deuocsid allan o'r aer trwy eu dail a'i ddefnyddio, a golau'r haul, i ffotosyntheseiddio, sydd yn eu galluogi i dyfu. Os ydych yn ansicr sut mae ffotosynthesis yn gweithio, [edrychwch ar y fideo hwn](#)

Ffocws ar Ecosia

- Mae chwilio ar y rhyngwrld yn creu arian am y bydd y cwmnïau sydd eisiau i chi weld eu tudalen yn talu arian er mwyn sicrhau bod eu hysbyseb ar frig y dudalen. I rai chwilotwyr, mae'r arian hwn yn gwneud y bobl sydd yn berchen ar y cwmni yn gyfoethog iawn. Gyda Ecosia, defnyddir yr elw i blannu coed mewn gwledydd ar draws y byd. Hyd yn hyn, maent wedi plannu tua 100 miliwn o goed yr amcangyfrifir eu bod yn tynnu 5 miliwn o dunelli o CO2 allan o'r atmosffer.
- [Gwylwch y fideo](#) sydd yn dangos rai o effeithiau prosiectau plannu coed.
- A yw Ecosia yn syniad da? A fydddech chi yn argymhell ei ddefnyddio yn lle Google? Treulwch rywffaint o amser yn ymchwilio

Gweithgaredd:

Dyluniwch daflen yn dweud wrth bobl pa mor bwysig yw coed i'n Byd a'n bywyd gwyllt. Gwnewch yn siŵr bod eich taflen yn gorffen gyda rhywbeth yr ydych eisiau i bobl ei wneud – gallai fod yn defnyddio Ecosia yn lle chwilotwr gwahanol, gallai fod yn plannu coed yn eu gardd neu gyfrannu arian i Maint Cymru.

Efallai fydd y disgyblion eisiau ymchwilio i fuddion eraill coed, er enghraifft i atal llifogydd er mwyn leddfu effeithiau newid yn yr hinsawdd.



Syniadau Ymestyn:

- Os oes gennych le ar dir yr ysgol, gwnewch gais am goed am ddim i'w plannu gan Goed Cadw a phlannwch un ar gyfer pob aelod o'r dosbarth.
- Newidiwch chwilotwr eich ysgol i Ecosia a gweld pa mor hir y mae'n cymryd i chi gyrraedd 10 o goed wedi eu plannu.
- Ymchwiliwch ymhellach i rai o'r prosiectau plannu coed sydd wedi digwydd a thrafodwch yr effaith ar bobl sydd yn byw mewn cymunedau lleol. Mae prosiectau Ecosia wedi cael eu cynnal yn Sbaen, Morocco, Senegal, Burkino Faso, Ghana, Tanzania, Uganda, Madagascar, Indonesia, Kenya, Ethiopia, Brasil, Periw, Columbia, Nicuragua, Haiti.

Ecosia

- Beth mae sefydliadau coed yn ei wneud yng Nghymru i gynnyddu ein gorchudd coed? (tua 15% ar hyn o bryd).

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Dyniaethau

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r ddynoliaeth yn eu hwynebu ac yn gallu cymryd camau ystyrlon a moesegol.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi ei ddylanwadu gan brosesu a gweithredu dynol.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi.



Adnoddau gan sefydliadau eraill:

- [Maint Cymru](#)
- [Cyfoeth Naturiol Cymru - Cyfrifydd Carbon](#)
- [Coed Cadw](#)
- [Confra Bywyd Gwyllt y Byd](#)
- [Llais Y Coedwig](#)

Eco-Schools



33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB

☎ 029 2025 6767 🌐 keepwalestidy.cymru ✉ info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmi wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

